***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2000 No. 2335

## Rheoliadau Adnabod Defaid a Geifr (Cymru) 2000

### Gofynion marcio ar gyfer symud defaid a geifr i gyrchfan y tu allan i Brydain Fawr

**11.**—(1) Rhaid i unrhyw berson sy'n anfon defaid neu eifr y tu allan i Brydain Fawr sicrhau (neu, yn achos anifail a gafodd ei farcio eisoes â rhif adnabod unigol, fe gaiff sicrhau) bod pob anifail wedi'i farcio adeg ei anfon â thag clust neu datŵ sy'n cynnwys cyfuniad unigryw o'r llythrennau "UK", marc diadell neu farc gyr y safle sy'n ei anfon, y llythyren "X", a rhif adnabod unigol.

(2) Ni chaiff neb anfon unrhyw ddafad neu afr y tu allan i Brydain Fawr os cafodd ei farcio â thag clust neu datŵ yn diweddu â'r llythyren "R" sy'n dangos mai tag clust neu datŵ yn lle un arall ydyw.